# ESBONIO

Beth yw'r cysylltiad rhwng y termau mewn print trwm?

Pa dermau pwnc penodol sy'n cael eu defnyddio yn y testun hwn?


Beth sy'n cael ei esbonio yn y testun?



## Beth yw clefyd CARDIO-FASGWLAIDD?

Mae clefyd cardiofasgwlaidd yn cynnwys pob math o glefydau ar y galon a chylchrediad y gwaed. Mae hyn yn cynnwys clefyd coronaidd y galon (angina a thrawiad ar y galon), clefyd cynhenid y galon a strôc. O'r clefydau hyn, clefyd coronaidd y galon sy'n lladd y nifer fwyaf o bobl Prydain. Fel rheol, caiff clefyd coronaidd y galon a strôc eu hachosi gan ddeunydd brasterog yn crynhoi'n raddol yn waliau'r rhydwelïau (arteries). Rydym yn esbonio mwy am hyn isod.

Mae clefyd cardiofasgwlaidd yn cael ei alw'n 'clefyd y galon a chylchrediad y gwaed' hefyd.




Y GALON
A Rhydweli Goronaidd Dde
B Rhydweli Goronaidd Chwith

Pwy yw cynulleidfa'r pamffled a pham eich bod yn credu hyn?



### Clefyd coronaidd y galon

Mae clefyd coronaidd y galon yn gallu achosi symptomau **angina** ac yn gallu arwain at **drawiad ar y galon.** Mae'n dechrau pan fydd y rhydwelïau coronaidd (y rhydwelïau sy'n cario gwaed llawn ocsigen i gyhyr y galon) yn mynd yn gul am fod stwff brasterog yn crynhoi yn eu waliau yn raddol. Gelwir y cyflwr hwn yn atherosclerosis a gelwir y stwff brasterog yn atheroma.

Pa ferf amhersonol sydd yn y paragraff hwn?

### Angina

Ymhen amser, gall eich rhydwelïau fynd mor gul fel na all digon o waed lifo trwyddynt i gyhyr y galon. Gall hyn achosi angina. Mae angina'n symptom o glefyd coronaidd y galon. Angina yw'r boen neu'r teimlad anghyfforddus a gewch yn eich brest pan na all digon o waed lifo trwy'ch rhydwelïau i gyhyr y galon.

Os hoffech wybod rhagor am angina, darllenwch ein llyfryn 'Angina' (fersiwn Gymraeg ar gael).

Esboniwch beth sy'n achosi'r boen yn y frest?

**SUT Y MAE ATHEROMA'N CASGLU**




Pan fydd stwff brasterog yn crynhoi yn y rhydwelïau, mae'r rhydwelïau'n mynd yn gul ac mae'n fwy anodd i'r gwaed lifo trwyddynt.

Beth sy'n cael ei esbonio yn y diagram hwn?

A Wal y rhydweli
B Gwaed yn y rhydweli
C Atheroma (stwff brasterog) yn crynhoi
Ch Atheroma'n culhau'r rhydweli, gan gyfyngu ar lif y gwaed i'r galon.

Rhan o beth ydych chi'n meddwl yw hwn? Pam ydych chi'n dweud hyn?

GwE
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
YSGOL TRYFAN
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government